# 4 o bob 5 cynhaliwr yn ofni'r toriadau

Mae mwy na 80% o gynhalwyr di-dâl yn poeni am doriadau i'w gwasanaethau, yn ôl arolwg gafodd ei wneud ar gyfer Wythnos Cynhalwyr 2011.

Mae rhoi'r gorau i weithio er mwyn gofalu am berson gwan, gwael neu anabl yn golygu aberth ariannol oherwydd budd-dâl gofalwyr yw'r un isaf sydd ar gael.

Dywedodd Jessica West sy'n gofalu am ei merch anabl, 'Rwyf mewn dyled anferth, mae fy nghynilion wedi mynd ac nid wyf yn gallu talu biliau cyffredin fel nwy a thrydan heb sôn am dalu'r morgais ar fy nhŷ. Oni bai am fy mhlant byddwn wedi taflu fy hun oddi ar bont ers talwm.'

Yr un neges oedd gan Julie Morgan. 'Ni fedraf weithio ac felly mae perygl i mi golli fy nhŷ. Mae hynny'n golygu y byddwn i a'm gŵr sy'n fethedig yn mynd yn ddi-gartref'.

Dyma'r union bobl sy'n arbed £119 biliwn bob blwyddyn i'r llywodraeth trwy leihau'r pwysau sydd ar y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.

Pryder enfawr arall yw'r gofalwyr ifanc. Mae Barnados wedi amau ers talwm fod llawer mwy o ofalwyr ifanc ym Mhrydain nag y gwyddom amdanynt. Y ffigwr swyddogol ydy 175,000, ond mewn gwirionedd mae'n llawer uwch. Datgelodd yr ymchwil 'Bywydau Cuddiedig' fod llawer o gynhalwyr ifanc ddim yn rhan o'r ystadegau swyddogol, ac ar ôl holi 1000 o athrawon cynradd ac uwchradd darganfyddwyd bod:

- 78% o'r athrawon yn credu nad oedd teuluoedd cynhalwyr ifanc yn dweud wrth y gwasanaeth cymdeithasol rhag ofn i'r gwasanaeth ymyrryd e.e. chwalu'r teulu
- 91% o'r athrawon o'r farn fod llawer o gynhalwyr ifanc yn syrthio trwy'r rhwyd
- yr athrawon yn credu bod 72% o'r cynhalwyr yn cadw'r wybodaeth rhag yr athrawon
- 75% ohonynt yn cadw'r wybodaeth rhag eu cyd-ddisgyblion
- 50% o'r athrawon o'r farn nad oedd y system o adnabod a chefnogi cynhalwyr ifanc o fewn ysgolion yn ddigon effeithlon.

Yn ychwanegol, gofynnwyd i 83 o bobl ifanc sy'n rhan o brosiect Cynhalwyr Ifanc Barnado sut fywyd sydd ganddynt go iawn a datgelwyd:

- Ar gyfartaledd, treuliodd y cynhalwyr bedair blynedd yn gofalu am riant neu berthynas cyn cael unrhyw gymorth.
- Roedd y mwyafrif ohonynt rhwng 13 a 15 oed ac roeddent yn treulio tua 17 awr yr wythnos ar eu dyletswyddau.

Mae'r ddau arolwg yn tynnu sylw at 'y diwylliant o gyfrinachedd' ymysg y cynhalwyr a'u teuluoedd.

'Mae o leiaf 175,000 o blant a phobl ifanc yn cael eu gorfodi i aberthu eu plentyndod i ofalu am riant, brawd neu chwaer sy'n ddifrifol wael. Maent yn cario cyfrifoldebau enfawr ar eu hysgwyddau. Mae rhai yn gweithio am tua 30 awr yr wythnos a rhai yn gorfod rhoi meddyginiaethau, ymolchi'r claf, talu biliau, siopa a pharatoi bwyd i'r teulu, heb sôn am ofalu am frodyr a chwiorydd iau. Heb gefnogaeth maent yn colli eu plentyndod,' meddai Martin Narey, Prif Weithredwr Barnardo.